# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gyfun Y Strade

Dyddiad yr arolygiad: 16/03/2026

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gyfun y Strade yn gymuned gynnes a chynhaliol lle mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn sail i amgylchedd ddysgu gynhyrchiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn barchus ac yn ymroi'n frwd i'w dysgu, sydd yn galluogi llawer i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi ethos cynhwysol a theuluol yr ysgol sydd yn rhoi ymdeimlad cryf o berthyn iddynt.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio dysgu yn effeithiol ac yn darparu gweithgareddau sy'n adeiladu'n rhesymegol ar wybodaeth flaenorol disgyblion. Yn yr enghreifftiau cryfaf, mae addysgu'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus, yn datblygu eu gallu i feddwl yn ddyfnach ac yn eu hannog i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol. Mewn ychydig o wersi lle nad yw'r addysgu mor gryf, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon effeithiol er mwyn cynnig digon o her i ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar feithrin a datblygu medrau disgyblion. Mae arweinwyr yn cynllunio a chydlynu darpariaeth bwrpasol a gwerthfawr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, gan eu hintegreiddio'n effeithiol i gyfoethogi dysgu ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn trwy ddefnyddio'u medrau yn ystyrlon a'u cymhwyso'n hyderus ac yn fedrus ar draws y pynciau. Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn berthnasol, gan gefnogi datblygiad disgyblion fel unigolion cyflawn.

Mae trefniadau ar gyfer lles, gofal, cymorth ac arweiniad yn gryf. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn darparu cymorth wedi'i deilwra sy'n ymateb yn sensitif i'w hanghenion. Mae'r fenter 'Strade yn y Gymuned' yn darparu cymorth pwrpasol i ddisgyblion sy'n gwella eu lles, eu hymgysylltiad â dysgu, ac yn eu helpu i oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi ac anawsterau cymdeithasol ac emosiynol. Mae darpariaeth addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae trefniadau diogelu yn gadarn.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol ac arwain mentrau sydd yn datblygu eu hyder a'u hymdeimlad o berthyn i gymuned ehangach yr ysgol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn darlledu cerddoriaeth Gymraeg a negeseuon lles wythnosol trwy orsaf radio'r ysgol, 'Sain y Sosban', gan hybu Cymreictod a chymuned Ysgol y Strade.

Mae'r pennaeth yn arweinydd dibynadwy a chadarn gyda gweledigaeth glir. Caiff ei gefnogi'n effeithiol gan y tîm arwain a'r llywodraethwyr. Mae gan yr ysgol drefniadau addas i werthuso ei gwaith a chynllunio ar gyfer gwelliant, sydd wedi arwain at welliannau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys gwella ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau. Fodd bynnag, dros amser, nid yw arweinwyr wedi llwyddo i wella presenoldeb, gan gynnwys presenoldeb disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella lefelau presenoldeb disgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim

A2 Rhannu'r arferion addysgu cryf a welwyd yn y gwersi gorau er mwyn cryfhau ymhellach safon yr addysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2026